



Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr gofal cartref

1. Diben yr adroddiad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r ymgynghoriad ar Y Gweithiwr Gofal Cartref, Canllawiau Ymarfer i Weithwyr Gofal Cartref a gofrestrwyd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (y canllawiau). Mae'n cynnwys disgrifiad o'r prosesau ymgysylltu ac ymgynghori, a throsolwg o'r adborth a dderbynnir a gwybodaeth am y camau nesaf.

2. Cefndir

- 2.1 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer pob grŵp o gofrestreion (ar hyn o bryd gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr gofal preswyl plant). Mae'r canllawiau'n ddatblygiad o'r Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a bwriedir iddo fod yn offeryn ymarferol. Mae diben rheoleiddiol iddo hefyd a gellir ei ddefnyddio i ddangos bod y Côd wedi'i dorri. Felly os nad yw gweithiwr yn dilyn canllawiau, gall cofrestriad y cyfryw weithiwr fod mewn perygl. Mae'r canllawiau wedi'u teilwra ar gyfer grŵp penodol o gofrestreion sy'n defnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, ffynonellau perthnasol eraill (yn cynnwys yn yr achos hwn ymchwil i safbwyntiau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cartref) a chynghor cyfreithiol hefyd. Datblygwyd y Canllawiau i Weithwyr Gofal Cartref i gydfynd â'u cofrestriad ddechrau Ebrill.

2.2 Ymgysylltu ac ymgynghori

- 2.2.1 Yn Awst 2017, bu i ni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â Gweithwyr Gofal Cartref a'u rheolwyr yn y Gogledd a'r De i drafod y canllawiau. Ym mis Hydref 2017 aethom ati i lansio ymgynghoriad 12 wythnos. Gwnaed ymdrechion arbennig i gyrraedd Gweithwyr Gofal Cartref, er enghraifft, trwy apelio'n uniongyrchol am gymorth rheolwyr gofal cartref a rheolwyr hyfforddiant.
- 2.2.2 Derbyniwyd 82 o ymatebion unigol, llawer ohonynt ar ran sefydliadau, grwpiau neu dimau, felly mae nifer yr unigolion a gyfrannodd yn llawer uwch (Gweler atodiad 1).
- 2.2.3 Yn yr ymgynghoriad gofynnwyd i randdeiliaid a fyddai'r canllawiau yn cefnogi gweithwyr i ddarparu gwasanaeth da. O'r ymatebwyr a ddefnyddiodd y blychau ie / nage, atebodd **dros 90%** ie.

Mewn sylwadau, nododd ymatebwyr fod y canllawiau yn cefnogi'r Côd. Roedd nifer hefyd wedi nodi cymorth hanfodol arall i weithwyr: arweinyddiaeth, hyfforddiant a goruchwyliaeth dda, cyflog ac amodau digonol. Dywedodd llawer y dylai cyflogwyr gael disgwyliaid tebyg wedi'u gosod arny'n nhw.

Enghraifft o sylw:

'Ydyw, rwy'n credu ei fod yn crynhoi ein disgwyliaid fel cyflogwr mewn llyfryn cryno a dealladwy'

2.2.4 Hefyd, gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ar gynnwys y canllawiau. Yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn cytuno bod y cynnwys yn berthnasol gyda barn yn amrywio ynghylch lefel y manylder a'r hyd.

Mae awgrymiadau a newidiadau a awgrymwyd i'r cynnwys yn cynnwys:

- Cyfeirio'n benodol at rôl cyflogwyr yn y gwaith o gefnogi gweithwyr i gyflawni'r canllawiau.
- Cryfhau'r disgrifiad a'r cyfeiriadau at gymorth a gofal sy'n canolbwyntio ar y person.
- Osgoi disgrifiadau sy'n awgrymu 'gwneud i' (h.y. tasgau gofal) a chryfhau'r cyfeiriadau at 'gwneud gyda' / galluogi.
- Cryfhau'r cyfeiriadau at hawliau unigolyn a chyfeirio'n benodol at hawliau dynol.
- Ailedrych ar y darn ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol: cafwyd llawer o ymateb (yn cynnwys gan Fforwm Gofal Cymru) fod y cyngor yn rhy haearnaidd yn 'atal' pobl rhag defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol at ddibenion gwaith. Mae llawer o gyflogwyr yn defnyddio Facebook ac ati i gysylltu â'u staff. Mewn rhai achosion mae gweithwyr ac unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn anfon negeseuon at ei gilydd, e.e., os yw'r gweithiwr yn hwyr. Mewn cymunedau bach, mae atal sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol "i unrhyw berson at ddibenion cysylltiediig â gwaith" yn rhywbeth na fyddai'n gweithio.

Mae diwygiadau wedi eu gwneud er mwyn ymateb i'r pwynt hwn a phwyntiau eraill.

Enghraifft o sylwadau:

'Bydd hyn yn helpu ein cwmni i ddatbygu a chadw cyfri ar sut rydym yn gwneud cynnydd'.

'Mae angen gweithwyr sy'n ymdrechu i hwyluso a helpu unigolion i wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a symud i ffwrdd oddi wrth y syniad ein bod yn gwneud pethau ar gyfer ac ar ran pobl eraill'.

2.2.5 Er na chawsant eu cynnwys yn y canllawiau terfynol roedd rhai wedi awgrymu newidiadau a gaiff eu defnyddio i lywio'r adolygiad arfaethedig o ganllawiau i reolwyr gofal cymdeithasol. Er enghraifft, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn awgrymu mwy o gynnwys ar ddeddfwriaeth, eiriolaeth broffesiynol annibynnol, a dyletswyddau cyfreithiol ar ddiogelu.

2.2.6 Gofynnwyd i randdeiliaid am eu safbwyntiau ar yr iaith a'r arddull. Mae'r sylwadau yn gyffredinol yn gadarnhaol dros ben. Mae awgrym y byddwn yn ailystyried y system rifo a rhoddir sylw i hyn cyn i'r gwaith terfynol gael ei gyhoeddi.

Enghraifft o sylwadau:

'Mae'n glir ac yn hawdd ei ddilyn – penawdau bras - dim jargon –pan ofynnwyd i'r staff, roedden nhw o'r farn fod hyn yn ddefnyddiol'.

'Syml dros ben ac yn hawdd ei ddarllen heb fod yn nawddoglyd'.

3. Cynllun cyfathrebu a gweithredu

3.1 Fel rhan o'r ymgysylltu a'r ymgynghori, gofynnwyd i randdeiliaid sut y byddwn yn sicrhau bod y canllawiau ar gael i'r holl weithwyr. O ganlyniad, cafwyd llawer o syniadau a byddwn yn defnyddio rhai ohonynt:

- cyhoeddi'r canllawiau ar-lein ac mewn ap
- sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael copi pan fyddan nhw'n cofrestru
- annog cyflogwyr i ddarparu'r canllawiau i'r holl weithwyr
- defnyddio Facebook
- defnyddio ein hymgysylltiad wyneb yn wyneb i egluro'r canllawiau.

Mae'n hanfodol ein bod yn sefydlu'r gwaith o gyflwyno'r canllawiau hyn yn y cynllun cyfathrebu a gweithredu wrth gofrestru.

3.2 Hefyd, awgrymodd rhanddeiliaid ffyrdd i'r cyflogwyr a'r rheolwyr roi'r canllawiau ar waith megis eu defnyddio fel rhan o gyfnod sefydlu ac wrth oruchwylio, gan gyfeirio atynt neu eu hatodi yn y llawlyfrau i staff, wrth drafod mewn cyfarfodydd tîm a sicrhau bod copiau ar gael ar gyfer 'y swyddfa'. Wrth i ni lansio'r canllawiau, gallwn fynd ati i hyrwyddo'r awgrymiadau hyn.

4 Camau nesaf

4.1 Cymeradwywyd y canllawiau drafft terfynol gan Bwyllgor Rheoleiddio a Safonau Gofal Cymdeithasol Cymru ar 8 Mawrth. Cyhoeddir y canllawiau ym mis Ebrill, i gydfynd ag agoriad y gofrestr ar gyfer gweithwyr gofal cartref.

Atodiad 1 – Rhestr o'r sawl a ymatebodd i'r canllawiau ar gyfer Gweithwyr Gofal Cartref

- Gweithwyr Gofal Cartref Unigol
- Unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth a gofalwyr (4 ymateb)
- Grŵp Rheoli Gofal
- Mount Pleasant
- Cymdeithas Gofal Cartref Cymru
- Partneriaeth Gweithlu Rhanbarthol Gofal a Chymorth Caerdydd a'r Fro
- Drive Domiciliary Care
- Undeb Llafur GMB
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Gwasanaeth Gofal Cartref
- Gwasanaeth Gofal Canolraddol ac Adsefydlu
- Rhagolygon ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu, rhan o Livability Group
- Cartrefi Cymru (ymateb gan y sefydliad a gweithwyr unigol)
- Right at Home, Abertawe
- Asiantaeth Gofal Cartref Tender Loving Care
- HART CARTREFI CYMRU (yn cynnwys ymatebion gweithwyr unigol)
- M and D Care
- Asiantaeth Abacare
- Bluebird
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Liberty Care Ltd
- Action on Hearing Loss
- J – Care Support Services
- Home Instead
- Absolute Care (Wales) Ltd
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cyngor Gwynedd
- Neath Care (ymatebion gweithiwr unigol)
- Cyngor Conwy
- Cyngor Abertawe (ymatebion gweithiwr/wyr unigol a'r sector annibynol gyda'i gilydd)
- Fforwm Gofal Cymru
- Awdurdod Lleol Dienw – casglwyd ymatebion staff gofal cartref
- TLC Nursing & Homecare Plus Ltd
- UNSAIN
- Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig

